

Ydych chi'n talu trwy Ddebyd Uniongyrchol? Os nad ydych, darllenwch ymlaen.

Debyd Uniongyrchol yw'r ffordd hawsaf a mwyaf cyfleus o dalu Treth y Cyngor. Trwy ddewis talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, ni fydd byth angen i chi boeni am golli taliad, ysgrifennu sic na chiwio mewn swyddfeydd arian parod y cyngor na swyddfeydd post. Gallech arbed costau postio hefyd.

I'w gwneud hyd yn oed yn haws talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, mae'r cyngor nawr yn cynnig pedwar dyddiad talu misol - y 1^{af}, yr 8^{fed}, y 15^{fed} a'r 22^{ain} – os ydych yn newid i dalu trwy'r dull hwn. Rydych hyd yn oed yn gallu dewis talu Treth y Cyngor dros y 10 rhandaliad statudol neu dros 12 rhandaliad. (Bydd nifer gwirioneddol y rhandaliadau misol yn dibynnu pryd mae'r cyfarwyddyd yn cael ei sefydlu.) Neu efallai y byddai'n well gennych dalu'n flynyddol neu'n chwemisol.

Nid oes rhaid i chi lenwi ffurflen hyd yn oed. Dewiswch y dyddiad mwyaf cyfleus i chi, byddwch yn barod â'ch manylion banc a rhowch ganiad i Is-adran Treth y Cyngor ar (01792) 635382. Bydd aelod o staff yn sefydlu'r Debyd Uniongyrchol pan rydych ar y ffôn.

Fel arall, gallwch lenwi'r cyfarwyddyd drosodd, gan gofio cynnwys eich cyfeirnod Treth y Cyngor 10 digid (yn unol â'ch bil) a chofio ticio'r dyddiad talu priodol hefyd.

Bydd eich rhandaliadau Treth y Cyngor yn cael eu debydu o'ch cyfrif banc yn awtomatig ar y dyddiad dyledus (neu'r diwrnod gwaith nesaf os yw'r dyddiad dyledus ar benwythnos neu ŵyl banc).

Rhybudd Preifatrwydd

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

FINANCE DEPARTMENT/ADRAN GYLLID

Revenues Section, Civic Centre, Swansea, SA1 3SN; Is-adran Refeniw, Canolfan Ddinesig, SA1SN

☎ (01792) 635382 📠 (01792) 635895

✉ Council.Tax@swansea.gov.uk 🌐 www.swansea.gov.uk/counciltax

Y Warant Debyd Uniongyrchol

- Cynigir y Warant hon gan bob Banc a Chymdeithas Adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddiadau i dalu Debydau Uniongyrchol.
- Os bydd unrhyw newid i swm, dyddiad neu amllder eich Debyd Uniongyrchol, bydd Dinas a Sir Abertawe'n rhoi gwybod i chi 10 niwrnod gwaith cyn i'ch cyfrif gael ei ddebydu neu fel a gytunwyd yn wahanol. Os gofynnwch i Ddinas a Sir Abertawe gasglu taliad, cewch gadarnhad o'r swm a'r dyddiad ar adeg y cais.
- Os gwneir gwall wrth dalu'ch Debyd Uniongyrchol gan Ddinas a Sir Abertawe neu'ch Banc neu'ch Cymdeithas Adeiladu, mae gennych hawl i ad-daliad llawn ac ar unwaith o'r swm a dalwyd o'ch cyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu:
- Os cewch ad-daliad nad oes gennych hawl iddo, mae'n rhaid i chi ei dalu yn ôl pan fydd Dinas a Sir Abertawe'n gofyn i chi wneud hynny.
- Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'ch Banc neu'ch Cymdeithas Adeiladu. Efallai y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig arnoch. Rhowch wybod i ni hefyd.

FINANCE DEPARTMENT/ADRAN GYLLID

Revenues Section, Civic Centre, Swansea, SA1 3SN; Is-adran Refeniw, Canolfan Ddinesig, SA1SN

☎ (01792) 635382 📠 (01792) 635895

✉ Council.Tax@swansea.gov.uk 🌐 www.swansea.gov.uk/counciltax



**Cyfarwyddyd i'ch Banc neu'ch Cymdeithas
Adeiladu i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol**



Llenwch y ffurflen gyfan a'i hanfon at: Dinas a Sir Abertawe, Is-adran Refeniw, Canolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.							
Enw(au) deilia(i)d y cyfrif							
Rhif cyfrif Banc/Cymdeithas Adeiladu:							
Côd Didoli cangen: (cornel dde uchaf eich llyfr sieciau)							
		-		-			
Enw a chyfeiriad post llawn eich Banc neu'ch Cymdeithas Adeiladu:							
At Reolwr y Banc/Cymdeithas Adeiladu:							
Cyfeirnod Treth y Cyngor (yn unol â'r bil): Rhif adnabod y dechreuwr:							
Cyfeiriad yr eiddo yr hoffech dalu amdano trwy Ddebyd Uniongyrchol:							
Eich rhif ☎ os bydd ymholiad:							

Rhif adnabod y sefydlwr:-			
9	7	1	9 3 0
Efallai na fydd rhai Banciau a Chymdeithasau Adeiladu'n derbyn cyfarwyddiadau Debyd Uniongyrchol ar gyfer rhai mathau o gyfrifon.			
Nid yw hyn yn rhan o'ch cyfarwyddyd i'ch Banc neu'ch Cymdeithas Adeiladu, ond caiff ei ddefnyddio gan y cyngor i sefydlu'ch Debyd Uniongyrchol. Rhowch gylch o gwmpas eich dewis o 10 neu 12 rhandaliad a nodwch â ✓ eich dyddiad talu misol amgen neu un o'r opsiynau talu eraill sydd ar gael. Os nad ydych yn ticio blwch, caiff taliadau misol eu cymryd ar y 1af o bob mis.			
1^{af}	8^{fed}	15^{fed}	22^{ain}
Blynyddol ar y 1^{af}		Chwemisol ar y 1^{af}	
Cyfarwyddyd i'ch Banc neu'ch Cymdeithas Adeiladu .			
Talwch Ddebydau Uniongyrchol i Ddinas a Sir Abertawe o'r cyfrif â'i fanylion ar y cyfarwyddyd hwn yn amodol ar fesurau diogelwch y Warant Debyd Uniongyrchol. Deallaf y gall y cyfarwyddyd hwn aros gyda Dinas a Sir Abertawe ac, os gwnaiff, caiff y manylion eu trosglwyddo'n electronig i'm Banc/Cymdeithas Adeiladu.			
Llofnod(ion):			
Dyddiad:			

FINANCE DEPARTMENT/ADRAN GYLLID

Revenues Section, Civic Centre, Swansea, SA1 3SN; Is-adran Refeniw, Canolfan Ddinesig, SA1SN

☎ (01792) 635382 ☎ (01792) 635895

✉ Council.Tax@swansea.gov.uk 🌐 www.swansea.gov.uk/counciltax